y dinesydd

Mehefin 2001 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 263

# Balchder Cyfiawn

On'd oedd hi'n braf gweld ymateb brwd sylwebyddion a gohebyddion i lwyddiant cynnal Rownd Derfynol Cwpan F.A. Lloegr yn Stadiwm y Mileniwm. Roedd Caerdydd yn edrych ac yn ymddwyn ar ei gorau, fel y gwnaeth adeg Cyfarfod Copa'r Undeb Ewropeaidd dro'n ôl. Ac fe wnaeth yr haul ei ran hefyd! Gwnaeth yr holl beth gyfraniad enfawr i ledaenu gwybodaeth ac adnabyddiaeth o Gaerdydd drwy'r byd.

Gobeithio y gwnaiff gyfraniad i hybu ein hunan-hyder ni yn ogystal. Mae sawl cynllun arall pensaernïol ar y gweill, ac mae perygl inni wneud smonach o bethau unwaith eto, fel y bu bron inni wneud yn achos y Stadiwm. Ac y gwnaethon ni'n bendant wrth wrthod y cynllun gwreiddiol am Dy Opera, y cynllun am adeilad teilwng i'r Cynulliad Cenedlaethol, a chynllun beiddgar Allsop i godi Tŷ Llên yn Abertawe.

Diolch i'r *Western Mail* i raddau a rhai unigolion glew, fe wrthodwyd digalonni, ac mae gobaith inni gael ein Canolfan Mileniwm i'r celfyddydau ac adeilad teilwng o'n Cynulliad. Erbyn hyn mae'r Cynulliad Cenedlaethol fel petai wedi magu digon o hyder i fentro cefnogi'r ddau gynllun, ac yn sylweddoli fod rhaid gwneud pethau yn iawn, ac yn gyson gyda statws Cymru fel cenedl a Chaerdydd fel ei phrifddinas.

Dydy'r holl arian y sonnir cymaint amdano yn ddim o'i gymharu â'r symiau anferth wariwyd ar Ganolfan Lowry ym Manceinion ac ar y Tate Newydd yn Llundain. O fentro'n feiddgar, mae Bilbao wedi elwa ar ei milfed o ran arian a hunan-barch o gael yr amgueddfa Guggenheim yno.

**Costau Cymharol**

| | Y fetr sgwâr | Seddi |
|---|---|---|
| Canolfan y Mileniwm | £2,004 | 1,825 |
| Canolfan Lowry | £2,828 | |
| Tŷ Opera Glyndebourne | £2,269 | 1,200 |
| Neuadd Symffoni Birmingham | £3,503 | 2,200 |

Ni ydy'n gelynion pennaf fel arfer, ac mae yna gymaint o garfanau o fewn ein cenedl sy'n dioddef o'r cythraul pensaernïol ac yn gwarafun codi sefydliadau cenedlaethol, yn enwedig yng Nghaerdydd, fel petai modd codi adeilad megis Cynulliad Cenedlaethol neu Dy Opera mewn tref fach wledig.

Un o ragoriaethau ein diwylliant ni erioed oedd nad oedd wedi'i organoli, ond roedd gwendid yn hynny hefyd. Mae cyrff fel ein Opera Cenedlaethol yn haeddu cartrefi teilwng o genedl sydd am chwarae ei rhan fel aelod o'r teulu rhyngwladol.

## ETHOLIAD CYNTA'R MILENIWM NEWYDD: FYDD YNA FWY NAG UN WYNEB NEWYDD YN EIN CYNRYCHIOLI NI?

Ers tro, mae gennym bedwar Aelod Seneddol yn y brifddinas, a thri ohonyn nhw'n siarad Cymraeg. Gyda Rhodri Morgan yn gadael San Steffan i ganolbwyntio ar fod yn Brif Weinidog Cymru, tybed a gawn ni aelod Llafur arall yn ei le sydd hefyd yn siarad Cymraeg, sef Kevin Brennan. Wrth inni fynd i'r wasg, dyma'r ddau olygydd gwadd yn mentro proffwydo mai dyna'r unig newid a fydd yna yn ein cynrychiolaeth seneddol, er yr holl sôn am sedd ymylol!

**A phwy yw Kevin Brennan?**

Cymro Cymraeg arall ac fel ei ragflaenydd, astudiodd Kevin yn Rhydychen - Gwleidyddiaeth, Athroniaeth ac Economeg, a bu'n Llywydd Undeb y Brifysgol, fel ei gyd-fyfyriwr ar y pryd, William Hague – sydd â chysylltiadau Cymreig fel y gwyddon ni. Fel hwnnw, hefyd, aeth Kevin ati i ddysgu Cymraeg, ac mae o'n eithaf rhugl erbyn hyn.

O Bontypwl y daw Kevin yn wreiddiol, ac aeth i Ysgol Gyfun Babyddol Sant Alban yno, cyn mynd i Rydychen, yn ôl i Gaerdydd i wneud Tystysgrif Addysg ac wedyn i Brifysgol Morgannwg i wneud MSc mewn rheolaeth addysg. Mae'n gynghorydd arbennig i'n Prif Weinidog ni ers llynedd. Ei ddiddordebau yw gwylio rygbi, chwarae'r gitâr a dysgu Cymraeg, ac mewn gwleidyddiaeth: materion economaidd, cyfansoddiadol a rhyngwladol.

*(parhad t.3)*

# Y Dinesydd

**Mehefin, Rhif 262.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygyddion y rhifyn hwn:**
Lenna a Harri Pritchard Jones

**Golygyddion y rhifyn nesaf:**
Gareth J. Williams a W. J. Jones

**NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.**

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst 2001 erbyn 22 Mehefin at:**
Mr Gareth J. Williams, 50 Crystalwood Road, Y Mynydd Bychan, Caerdydd CF14 4HW (Ffôn: 2075 1091)
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754, E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**DOSBARTHU**

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

**HYSBYSEBION**

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270; E-bost: MennaGwyn@aol.com)

**CYFRANIADAU ARIANNOL**

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## Rhodd i Gronfa'r Dinesydd

Diolch i Gapel Bethel, Rhiwbina, am y rhodd hael tuag at gronfa'r Dinesydd.

### FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

### FFURFLEN DANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

.............................................. Côd Post: ..................


Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

**Cystadleuaeth Mehefin 2001**: Noder y cyfeiriad newydd ar gyfer y gystadleuaeth: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 20 Mehefin 2001.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 23** **Mehefin 2001**



**Ar Draws**

2. Gwaith yr iâr yw dod yn ôl (5)
5. Arian Ewropeaidd yn troi'n aur efallai (4)
7. Crochan neu ddau yn Lloegr (4)
8. Ymddiheuro am yr isgoed us wedi chwythu o gwmpas (8)
9. ___ ___, dysg im chwilio
I wirioneddau'r gair' (1,7)
11. Rhywun annwyl gerllaw (4)
12. 'Panio'r pincs a'r rhosys cochion,
Torri pwysi o ____ ___ (6,7)
15. Rhwystro Sant Paul ar yn ail (4)
17. Pum cant mewn darlun sy'n esbonio disgleirdeb (8)
19. 'Pererin wyf mewn anial dir,
Yn crwydro __ _ ___ (3,1,4)
21. Gweler 18 i lawr
22. Gwerth prifddinas Ffrainc ar ôl colli pen Antoinette (4)
23. Antur yn troi'n anian (5)

**I Lawr**

1. Alun bach a dwy radd yn yr Unol Daleithau (7)
2. 'Ond cariad pur sydd fel y __
Yn para tra bo dau' (3)
3. Dewin dwl anhysbys (5)
4. Oes modd i Guy druan gadw o'r golwg? (7)
5. Aderyn yn dechrau efelychu oen swci (3)
6. O diar! Mae'n ddyrys ar yr awyr (5)
10. Adfyd hanner cant sâl (5)
11. 'Mae __ bach yn galw'i fam
A'i galon bron a thorri' (5)
13. Sefyllian o gwmpas y trên ola' (7)
14. Griddfan gwae yr ysbryd (7)
16. Yng nghanol ffrwst y morgrugyn mae amser (5)
18 a 21 ar draws. 'Fe'th welais di ar __ y __
A gwyntoedd Mawrth yn oer eu min' (5,4)
20. Esgyrn isa' wedi torri (3)
21. Gweddol lân (3)

**Atebion Croesair 22**

**Ar draws:** 1. Bacas; 4. Cymanfa; 8. Y bydd mawr y; 9. Clo; 10. Flaen ei; 12. Lois; 14. Petruso; 17. Farn; 18. Gorthrwm; 20. Ath; 21. Yn gyflawn; 23. Chwyrlio; 24. Nithio.

**I lawr:** 1. Brydferth fraich; 2. Clydach; 3. Semanteg; 4. Cyw; 5. Mwyn; 6. Nacaol; 7. Am oes lle y mynno; 11. Iorwg; 13. Ysgrifen; 15. Trothwy; 16. Arfaeth; 19. Syml; 22. Gro.

Derbyniwyd wyth ateb, 4 yn gywir a 4 yn anghywir. Ymddiheuriadau fod un cliw yn eisiau. Yr enillydd y tro hwn yw Beryl Hall, 340 Ffordd Cyncoed. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; Huana Simpson, Llansanwyr ac Iona Warmington, Llandaf. Ymddiheuriadau hefyd i'r enillwyr sydd heb gael eu tocyn llyfrau eto. Gobeithir eu danfon allan yn fuan.

# BETH AM ETHOLIADAU DDOE?

*Vaughan Roderick, cyflwynydd a gohebydd gwleidyddol BBC Cymru, sy'n edrych yn ôl ar gynrychiolaeth y brifddinas yn San Steffan dros y blynyddoedd.*

Do fe ddaeth hi'n adeg etholiad eto, ac unwaith yn rhagor mae'r gwleidyddion yn ymgiprys ac yn ymbil am bob pleidlais. Y dyddiau yma, wrth gwrs mae'n amhosib dianc rhag y gwleidyddion a'u taflenni, eu negeseuon ffôn a hyd yn oed eu e-byst.

Ond er yr holl dechnoleg, go brin y bydd y ras i gynrychioli'r Brifddinas yn San Steffan hanner mor lliwgar na mor ddrud â rhai o ornestau'r gorffennol.

Brwydrau'r boneddigion oedd y gornestau am ganrifoedd wrth gwrs, Serch hynny roedd ambell i ornest yn chwerw a chostus.Fe wariodd Ardalydd Bute dros £5,000 o bunnau ( gwerth hanner miliwn heddiw) i sicrhau sedd Bwrdeistrefi Morgannwg i'w frawd James yn 1818. Oherwydd natur cyfyng y bleidlais roedd hynny'n bron i gan punt am bob pleidlais! Llwyddodd James i guro ei wrthwynebydd o bedwardeg pump o bleidleisiau i ddwy ar bymtheg, a hynny mewn etholaeth oedd yn cynnwys bwrdeistrefi Abertawe, Aberafan,Cynffig, Casllwchwr, Castell Nedd, Y Bont-faen a Llantrisant, yn ogystal â Chaerdydd ei hun!

Go brin y cafodd yr Ardalydd werth ei arian: o fewn ychydig flynyddoedd roedd y ddau frawd ben ben â'i gilydd gyda'r Ardalydd yn pledio achos y Ceidwadwyr a James yn cefnogi diwygio'r bleidlais. Yn 1832 felly roedd grym ac arian teulu'r Castell yn cefnogi'r Tori , John Nichol, gydag ail fab y castell yn cario baner y diwygwyr. Roedd y frwydr yn un ffyrnig, ac mae'n ddiddorol gweld bod cyfran helaeth o'r llenyddiaeth etholiadol naill ai yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Unwaith yn rhagor, yr Ardalydd gafodd ei ffordd gan adael ei frawd fel yr unig ddiwygiwr ym Mhrydain i golli ei sedd yn yr etholiad. Ond wrth i Gaerdydd dyfu, edwinodd grym y castell a dinas Ryddfrydol oedd Caerdydd am y rhan helaethaf o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Serch hynny doedd y Buteiaid ddim wedi colli diddordeb, ac yn 1910 fe lwyddodd un ohonyn nhw, Arglwydd Ninian Crichton-Stuart (y gwr a roddodd y tir a'i enw i faes pêl-droed y ddinas) i gipio'r sedd fel Tori.

Rhannwyd y ddinas yn dair sedd yn 1918 ac er bod pob un o'r seddi wedi newid dwylo o bryd i'w gilydd, ar y cyfan roedd y patrwm yn ddigon sefydlog. Llafur, ar y cyfan, sy wedi teyrnasu yn Ne a Gorllewin y Ddinas, a'r Toriaid yn y Gogledd a'r Fro (sedd a oedd tan 1970 yn llwyr amgylchynu Caerdydd, gan gynnwys ardaloedd megis Llaneirwg, Rhiwbeina a Llandaf).

I aelodau seneddol fel Raymond Gower, Jim Callaghan a George Thomas roedd ennill enwebiad yn docyn oes i San Steffan. Dim ond yng Nghanol Caerdydd (Gogledd Caerdydd cyn 1974) y cafwyd brwydr go iawn gan amlaf. Ond er gwaetha'r sefydlogrwydd, cafwyd sawl ras gyffrous ac ambell i dric brwnt. Hyd heddiw mae Steffan Terlezki, yr aelod seneddol Toriaidd a drechwyd gan Rhodri Morgan yn 1987, yn cwyno am y person anhysbys a fu'n ei ddynwared ar gyrn siarad ar ddiwrnod yr etholiad, gan sarhau etholwyr a gweiddi sloganau eithafol.

Mae yna ambell Dori hyd heddiw yn beio Rhodri Morgan am y digwyddiad. Tybed a yw hi'n bryd i ddiddanwr Cymraeg amlwg gyfaddef mae ef oedd yn gyfrifol!

### Rhoi gorau i swydd

Ar ôl chwe blynedd yn y swydd mae Arthur Emyr yn rhoi gorau i fod yn Bennaeth Adran Chwaraeon BBC Cymru i ddilyn diddordebau eraill. Dymunir yn dda iddo yn y dyfodol.

### Wyddoch chi o ble y daeth yr enw 'Lloegr'?

Mae arwyddocâd arbennig i Loegr yn ein hanes ni, fel y gwyddon ni'n dda. Fe ddwedodd y Gwyddel, Samuel Beckett, unwaith, pan ofynnwyd iddo ai Sais oedd o, 'I'r gwrthwyneb'. **Cynhelir Fforwm Theori Caerdydd ar 'Lloegr: yr "arall" mewn Cymreictod?' ar nos Iau, Mehefin 14, yn ystafell x1.11, Adeilad y Dynaethiau yn y Brifysgol am 6 pm. Croeso i bawb.**



### Dwy o sêr newydd y sgrîn fach



Gwenan a Megan Price, disgyblion ym Mhwll Coch a ffyddloniaid ym Minny Street, yn *Fondue, Rhyw a Deinosors*. [Y ddau arall yn y llun yw eu rhieni yn y gyfres, Richard Lynch a Grug Maria!]

### DAVID MEREDITH

Rhyfedd yw meddwl am fyd y cyfryngau heb David Meredith. Fo sydd wedi bod yn wyneb cyhoeddus swyddogol ac anffurfiol S4C ers wyth mlynedd, a chyn hynny, HTV Cymru am un mlynedd ar hugain. Dyn addfwyn, croesawgar yn plygu i lawr i ysgwyd llaw yn annwyl a chwrtais efo pawb. Dyn call a chyfrwys, hefyd, pan oedd galw am hynny, ac un ag iddo hiwmor direidus. Mae'r byd cyfryngol yn dal i sôn am y morfil chwyth yn Cannes i hysbysebu'r animeiddiadau o'r Hen Destament.

Ond mae ochr arall i David a llwyddodd i gadw ei olwg ar wir werthoedd diwylliant yng nghanol bwrlwm masnachol.

Un o'i brosiectau pwysicaf wedi ymddeol yw gorffen ei hunangofiant, a diau y bydd ambell i gyfrinach am y mawrion a'r rhai bychain yn ymddangos yn hwnnw.

**Ei olynydd** fel Pennaeth y Wasg yn S4C fydd **Hannah Thomas**, gynt o Lanisien, ond sy'n byw nawr yn Nhreganna.

Ar hyn o bryd hi ydy Swyddog Gwybodaeth CADW, ond bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ddiwedd Mehefin. Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Glantaf a graddiodd mewn Cymraeg a Saesneg yn y Brifysgol yn Abertawe.

**Pob lwc i Nia Gwynn**, Treganna, cyn-swyddog Personél gyda S4C ar ei phenodiad i swydd efo Cwmni yn Nulyn.

Daw'n enedigol o borthladd Caergybi, felly mae hi'n nesáu at adre!

### Teithiau i Ynys Echni

Ble mae Ynys Echni? meddech chi. Wel, "Flatholm" ydy'r enw ar yr ynys yn Saesneg. Trefnir teithiau yno o borthladd y Barri am £10 i oedolyn a £5 i blentyn. Am fwy o fanylion ffoniwch 01446 747661

## Calendr y Dinesydd

**Llun, 11 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Gwibdaith. Manylion gan yr Ysgrifennydd, Beryl Jenkins (029-2061-3534).
**Iau, 14 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Dwy Sbectol.' Sgwrs gan y Parch. W. I. Cynwil Williams, ym Methlehem, Gwaelod-y-garth am 7.30 p.m.
**Gwener, 15 Mehefin**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Gwibdaith i Gwm Rhymni. Manylion gan yr Ysgrifennydd, Elsie Avery (01446-732203).
**Mercher, 20 Mehefin**
Cymdeithas Ty'r Cymry: Taith haf.
**Sadwrn, 23 Mehefin**
'Agor y Drws.' Diwrnod i hybu gweithgareddau Cymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro, yn cynnwys stondinau ac adloniant amrywiol, yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, rhwng 10 a.m. a 4.00 p.m.
**Iau, 5 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Swper Pentymor. Manylion gan yr Ysgrifennydd, Beryl Jenkins (029-2061-3534).
**Iau, 13 Medi**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Canu mawl ar yr Ais am 7.30 p.m.

*Er mwyn cynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk). Mae'r Calendr hefyd ar safle we'r Dinesydd: http://www.dinesydd.uklinux.net/*

## OWENA HOPWOOD



Yn gynnar fore Sul, Ebrill 29ain, bu farw Owena Hopwood yn frawychus o sydyn, yn Ysbyty Llandochau. Bu ei marwolaeth yn ergyd i'r gymdeithas gyfan ond yn bennaf oll i'w theulu, Eifion, Martin a Mererid, Elspeth ac Ian, a'r wyrion yr oedd hi mor falch ohonyn nhw: Lowri a Daniel, Hanna, Miriam a Llewelyn. Cydymdeimlwn yn fawr â nhw.

Yn Wrecsam y cychwynnodd Owena ar ei gyrfa fel athrawes gyda'i phenodiad yn syth o Goleg Aberystwyth i Ysgol Gymraeg newydd y dref. Yno hefyd y cyfarfu ag Eifion, ac ar ôl eu priodas a symud i Landochau, ymunodd â staff Ysgol Stanwell, Penarth, ac yna Ysgol y Merched yn y Barri. Bu'n gefn i fudiadau Cymreig yr ardal a dywed Eifion mai un o'i phleserau mawr fyddai tynnu'r llenni bob bore a gweld Ysgol Gymraeg Penarth gerllaw, ac ymfalchïo yn ei llwyddiant.

Meddai Owena ar gof rhyfeddol a gallai dynnu ar stôr gyfoethog o hanesion i loywi sgwrs efo ffrindiau ac, fel siaradwraig wadd, gallai swyno cynulleidfaoedd Merched y Wawr a'r W.I. gyda'i gwybodaeth am hanes Cymru a chymeriadau nodedig. Roedd ystod ei diddordebau yn eang a'i barn (pendant gan amlaf!) wedi ei seilio ar ddealltwriaeth o lên a cherdd. Ond yn anad dim, 'pobol' oedd ei 'phethe'. Ac o ddyddiau ei magwraeth ym Mhontarddulais, bu'n ffyddlon i'w theulu a'i ffrindiau ar hyd a lled Cymru ac ar wasgar ar draws y byd. Yn sicr, fe fydd y ffôn yn ddistawach, y pentwr llythyrau a chardiau yn ysgafnach a bywydau y rhai y bu Owena'n meithrin a gwarchod ei chyfeillgarwch â nhw yn dlotach hebddi.
N H W.

### Cymrawd i athrawes

Mae Iona Hughes, yr athrawes sydd â gofal am Addysg Grefyddol yn Ysgol Sant Curig, y Barri, wedi derbyn Gwobr Cymrawd Farmington a bydd yn treulio tymor yr haf eleni yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin ar gyfer Astudiaethau Cristnogol. Mae hyn o dan nawdd Sefydliad Farmington, sy'n gysylltiedig gyda Choleg Harris Manchester Rhydychen Bydd hi'n ymchwilio ar gyfer creu pecyn adnoddau ar gyfer athrawon Ysgolion Cynradd ar Fwdhaeth.

Dim ond 25 o athrawon a ddewiswyd i dderbyn yr ysgoloriaeth, a dwedodd Martin Rogers, Cyfarwyddwr Sefydliad Farmington 'Roeddem yn fodlon iawn gyda safon uchel y ceisiadau, ac yn falch o gynnig yr ysgoloriaeth i Iona Hughes.'

## Cydymdeimlir â:

- theulu'r diweddar Beti Llewelyn, Yr Eglwys Newydd, a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 20 Mawrth. Bu'r angladd yng Nghapel Minny Street ar 2 Ebrill ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- theulu'r diweddar Lillian Jones-Pritchard, Llanisien a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 11 Ebrill. Bu'r angladd yn Eglwys St Isan, Llanisien ar 23 Ebrill ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- theulu'r diweddar Siwsie Evans, Rhiwbina a fu farw yn ei chartre ar 19 Ebrill yn 88 oed. Bu'r angladd yng Nghapel y Tabernacl yn yr Ais ar 27 Ebrill ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- theulu'r diweddar Arwyn Jones, Yr Eglwys Newydd, a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 24 Ebrill. Bu gwasanaeth ar yr aelwyd i'r teulu cyn mynd i Amlosgfa'r Ddraenen ar 1 Mai.
- theulu'r diweddar Owena Hopwood, Llandochau a fu farw yn Ysbyty Llandochau ar 29 Ebrill. Bu'r angladd yn Salem, Treganna ar 10 Mai ac yn dilyn yng Nghapel y Trinity, Pontarddulais.

## Llongyfarchiadau

- i Catrin a Melfyn Hopkins ar enedigaeth eu mab, DANIEL GWYN, ar 19 Ebrill, 2001 – brawd i Owen John.
- i Rachel Garside, Rhiwbina gynt ac yn un o gyflwynwyr y rhaglen "Ffermio" ar S4C, ar ei phriodas â Richard James, Hen Dŷ Gwyn ar Daf yng Nghapel Minny Street ar 14 Ebrill. Gweinyddwyd yn y Capel gan y Parchedigion Eifion Powell ac Aled Gwyn.
- i Lowri Mererid, merch Gwyn ac Eirlys Pritchard Jones, Llanbedr y Fro, ar ei phriodas â Paul Burleton yng Nghapel y Tabernacl ar ddydd Sadwrn, 7 Ebrill. Ar hyn o bryd mae'r ddau yn gweithio yn Tokyo yn Siapan.
- i Eluned Morgan, Yr Aelod Seneddol Ewropeaidd, a'i gŵr Dr Rhys Jenkins ar enedigaeth Arwel Rhys eu cyntaf anedig yn Ysbyty Llandochau, Caerdydd ar 15 Ebrill. Mae Eluned yn ferch i Bob ac Elaine Morgan, Trelai gynt ond sy bellach yn byw yn Sir Benfro.
- i Ieuan a Manon Rhys ar enedigaeth Llew, brawd bach i Cai ar 6 Ebrill ac ŵyr i Thelma Evans, Trecynon ac Eryl Haf ac Arial Thomas, Llanwnda.
- i Richard a Rebekah Moss ar enedigaeth eu cyntaf anedig Ela Mai ar 4 Mai.
- i Ceri Innes-Parry ar gael ei phenodi'n athrawes yng Nghasnewydd.
- i Bethan Hughes a Hywel George ar eu priodas.
- i Dr Jerry Hunter ar gael ei ddyrchafu'n Uwchddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.
- i Steffan Ford ar ei briodas gyda Delyth Roberts yng Nghapel y Tabernacl, Rhuthun, ar Chwefror 3. Dymunwn pob bendith iddynt i'r dyfodol.

### Carlo'n gadael

Mae'r Eidalwr Cymraeg, Carlo Rizzi, wedi cwblhau ei gyfnod o naw mlynedd fel Cyfarwyddwr Cerdd ein Cwmni Opera. Mae'n gadael pan fo llewyrch amlwg ar weithgarwch y cwmni, gyda'r gobaith am gartref newydd yng Nghanolfan y Mileniwm, ac wrth i'r cwmni dderbyn Gwobr y Gymdeithas Ffilharmonig Brenhinol am y drydedd flwyddyn yn olynol, y tro hwn am Gyrhaeddiad Rhagorol ym myd opera gyda'i cynhyrchiad o The Queen of Spades.

Gofynnodd cadeirydd newydd y cwmni, Geraint Talfan Davies, am englyn neu ddau ar gyfer yr achlysur gan Fardd Llys y Brifddinas. Dyma nhw:

O'r Eidal a La Scala, - i arwain
Corws a cherddorfa
A rhoi hwb i'r Opera, -
Ein heilun, seren Gwalia.

Rhois yn wir Rosyn Arian – i genedl,
A'i gynneddf fu'n drydan
Nosweithiau, dyddiau diddan;
Gweld ei gamp wnaeth gwlad y gân.

### Gŵyl Ifan yn 25ain.
### Mehefin 22 - 24

Mae amser yn hedfan! Pwy fase'n meddwl y byddai Cwmni Dawns Werin Caerdydd yn dal i fodoli heblaw sôn am ddathlu pum mlynedd ar hugain o Wyl Ifan. Erbyn hyn mae'r Cwmni wedi tyfu i fod yn un o gwmnïau dawns fwyaf blaengar Cymru yn ogystal â bod y cwmni dawns hynaf (di-dor) ond un yn y wlad. Erbyn hyn mae'r Cwmni yn enwog am eu dathliadau a'u gwisgoedd ond storïau eraill yw y rheini.

Yn ôl at Wyl Ifan. Tyfu allan o wyl Cymdeithas Ddawns Werin Cymru a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a wnaeth Gwyl Ifan. Symudodd gwyl y Gymdeithas ar ei hynt a ninnau fel cwmni am gadw gŵyl o ddawns yng Nghaerdydd. Dim ond rhyw gant o ddawnswyr a ddaeth am ddiwrnod i ddawnsio o gwmpas y fro gan orffen yn Nantgarw a thwmpath yng Nghastell Caerffili nôl ym 1977 yn nyddiau ein hafau hirfelyn tesog. Mae'r wyl erbyn hyn yn un o wyliau mwyaf dawnsio gwerin pur Cymru gyda mwy na 250 o ddawnswyr yn cwrsio i Gaerdydd a'r achlysur yn para dros benwythnos cyfan. Bu dawnswyr o Weriniaeth Tsiec, Llydaw, Yr Almaen, Ffrainc a llawer i wlad gyfandirol arall yma yn eu tro ac aneirif yw'r chwedlau am nosweithiau hir a thoriadau gwawr cynnar yn eu cwmni.

Eleni, unwaith eto fe fydd mân newidiadau ac ambell i dro annisgwyl yn y trefniadau, mae'r rhain yn bwysig i gadw ffresni yn yr hen gamau. Codir dwy Pawl Haf, un tua unarddeg o flaen Neuadd y Ddinas a'r llall tua phedwar o'r gloch lawr ym Mae Caerdydd. Bydd y twmpath ar y nos Wener yng Ngwesty'r Angel yn agored i'r cyhoedd am £5 y pen.

**Rhodri Jones**

### Parti Ponty ym Mharc Ynys Angharad



Cofiwch am Barti Ponty dan nawdd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf ym Mharc Ynys Angharad yn nhre Pontypridd ar Ddydd Sadwrn, 30 Mehefin. Disgwylir miloedd yno i fwynhau perfformiadau gan nifer o rwpiau pop Cymraeg ac eitemau gan ddisgyblion holl ysgolion Cymraeg yr ardal. Dewch yn llu i gefnogi'r Fenter.

### Llwyddiant Cantores

Mae Iona Jones, y soprano o Landaf, newydd lansio cryno ddisg ar label Sain. Gydag un ar hugain o draciau, mae yno rywbeth at ddant pawb, o ganeuon gwerin i ganeuon Baróc ac operatig, a gwaith comisiwn arbennig iddi gan Gareth Glyn 'Caneuon Ionawr'.



Erbyn diwedd y flwyddyn, mi fydd llawer mwy o'r CDiau wedi gwerthu yn America nag yma yng Nghymru gan y bydd wedi croesi'r Iwerydd bum gwaith.

### AGOR Y DRWS – gyda Frank Hennessey
### Y Gymraeg yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg

Gydag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd wedi gorfod cael ei gohirio am flwyddyn, dyma gyfle arbennig i estyn croeso cynnes i ddysgwyr a Chymry Cymraeg Caerdydd a Bro Morgannwg i'r Diwrnod Sadwrn a gynhelir yn Neuadd Dewi Sant ar Fehefin 23ain o dan adain Consortiwm Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro.

Nod 'Agor y Drws' yw cyflwyno dysgwyr i weithgareddau cyfrwng Cymraeg. Gwahoddir cymdeithasau Cymraeg sy'n cynrychioli pob agwedd ar fywyd Cymraeg i gynnal stondinau a chael eu cynnwys yn y Cyfeiriadur a gyhoeddir yn arbennig ar gyfer y diwrnod.

Bydd hyn yn fodd, yn ogystal, i gryfhau y cymdeithasau eu hunain trwy ddenu aelodau newydd.

Agorir y diwrnod yn swyddogol am 10.00 o'r gloch gan Frank Hennessey, sydd ei hun wedi dysgu'r Gymraeg ac yn gefnogwr brwd iddi.

Yn ystod y dydd, trefnir adloniant a gweithgareddau o bob math, yn cynnwys sesiwn gyda Martin Geraint (Planed Plant); Siop Siarad, cwis, Côr Plant Caerdydd, Dawnsio Gwerin gyda Chwmni Canolfan yr Urdd (rhan o ddathliadau Gŵyl Ifan), Côr Caerdydd, Cornel y Plant yng nghwmni Mike Harvey, Branwen Gwyn, a Danny Grehan.

Apeliwn am gefnogaeth dysgwyr a Chymry Cymraeg i'r Diwrnod arbennig hwn.

Am fanylion pellach, cysyllter â Nans Couch (Ffôn 029 20753625 neu e-bost **nans.couch@talk21.com**)

### Albwm y pedwarawd "Bond" ar ben Siart Gerddorol yr Unol Daleithiau

Un o'r pedwarawd offerynnol hynod o boblogaidd "Bond" ydy Eos Chater o Gaerdydd a astudiodd y Gymraeg fel un o'i phynciau Safon A yn Ysgol Uwchradd Caerdydd cyn mynd i astudio yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain. Ail Fiolynydd ydy hi yn y pedwarawd sy'n perfformio dros y byd. Byddan nhw'n perfformio yn Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd ym mis Medi.

### Gwobr i Wyddonydd

Yn ddiweddar, derbyniodd J. D. Ronald Thomas, Athro Emeritws Cemeg a Chemeg Gymhwysol Prifysgol Cymru, Caerdydd, Wobr Darlith L. S. Theobald gan y Gymdeithas Gemegol Frenhinol. Dyfarnwyd hi iddo ar sail ei waith mewn cemeg ddadansoddol, a theitl ei ddarlith i gydnabod y wobr oedd 'Sialensiau a Phrofiadau Cemeg Ddadansoddol'.

Ar hyn o bryd, mae Ron a'i briod, Gwyneth, yn byw yn Gresffordd ger Wrecsam – 'lle mae'r tywydd yn brafiach nag yng Nghaerdydd.' Serch hynny, maen nhw'n para gyda'u haelodaeth a chysylltiadau â chapel y Tabernacl yn y brifddinas. Mae Ron yn gyn-aelod o'r Cylch Cinio, ac mae'n llywydd ar grŵp cyffelyb yn Wrecsam y tymor hyn, sef Meibion Maelor.

# Ysgol y Wern



Llongyfarchiadau i dîm cwis llyfrau'r ysgol sy'n cael ei drefnu gan y Cyngor Llyfrau. Tîm yr ysgol fydd yn cynrychioli'r sir yn y rownd derfynol a gynhelir ym mis Mehefin, yn Aberystwyth. Pob lwc iddyn nhw, sef Jennifer Thomas, Geraint Thomas, Catrin Treharne, Alaw Davies ac Elen Meggy (gweler y llun).

Eleni eto, mae ein tîm Diogelwch y Ffordd wedi cyrraedd y rownd gyn-derfynol drwy guro ysgolion eraill Caerdydd. Pob lwc iddyn nhw ym mis Mehefin pan fyddant yn cystadlu lawr yn Neuadd y Sir. Aelodau'r tîm yw Gruffydd John, Christopher Kelly, Owen Llewelyn, Freddy Wilson ac Olwen Jones.



### "Tad" Tenovus yn marw

Yn 91 oed bu farw Eddie Price, MBE, Tredelerch ond gynt o Abertyleri ar 2 Ebrill. Sefydlwyd yr Elusen Tenovus nôl yn 1943 gan ddeg o ŵyr busnes gan godi arian at wahanol achosion ond o 1964 canolbwyntiwyd ar ymchwil i ganser ac o ganlyniad crewyd Sefydliad Tenovus ar gyfer ymchwil i ganser yn Ysbyty'r Mynydd Bychan. Eddie Price oedd yr olaf o'r deg gŵr bûsnes a sefydlodd yr Elusen.

### EIRENE ANTHONY DAVIES (1906-2001)

Ychydig cyn y Pasg bu farw Mrs Eirene Anthony Davies. Ganwyd hi yn Ton Pentre ac fe uniaethodd ei hun gyda'r gymuned lofaol yn reddfol, er bod ei thad yn rheolwr pwll glo. Roedd yn berson naturiol academaidd ac wrth ei bodd yn astudio llenyddiaeth Saesneg. Daeth hyn â hi i adnabod T. Rowland Hughes, ac fe briododd y ddau. Daeth cwmwl tywyll dros eu bywyd gyda salwch Rowland, er yn ystod cyfnod y salwch bu iddo ysgrifennu llawer o'i nofelau gwych. Yn dilyn ei farwolaeth, bu Eirene yn dal yn aelod gweithgar yn yr eglwys a hefyd yn ymroddgar gyda gweithgareddau Tŷ'r Cymry a Chymmrodorion Caerdydd

Yna priododd y newyddiadurwr Anthony Davies, a ysgrifennai i sawl papur dan yr enw Llygad Llwchwr. Cawsant ychydig flynyddoedd o briodas ddedwydd cyn marwolaeth ddisyfyd Anthony, a adawodd Eirene yn wraig weddw ifanc am yr eildro. Ni phylodd y wên ac fe gofiwn amdani fel cymathiad o ddigrif a difrifol, yn un a werthfawrogai lonyddwch bywyd a bwrlwm y gymdeithas. Gwerthfawrogai gwmnïaeth ei theulu a'i chyfeillion ac roedd yn un o aelodau cyntaf Cymdeithas Hamdden. Ar gyfer ei phen-blwydd yn 94 oed, lluniodd ei gweinidog y soned hon iddi:

Rhwng Blaen y Cwm a'r Cymer gorwedd tir
Fu'n hardd ei wedd, yn goediog ac yn wyrdd,
Cyn dyfod dyn i reibio'r meysydd ir
Wrth gloddio glo a suddo pyllau fyrdd.
Daeth miloedd megis gwenyn at y bêl -
I weithio am gynhaliaeth yn y cwm,
Gan ffurfio cymunedau, gyda'u sêl
At werthoedd ffydd fu'n fwy na'u hanes llwm.
Rwyt tithau'n un o'u diwylliedig dras
Fu'n ffyddlon i obeithion mam a thad.
Ym mhob amgylchiad rhennaist werthoedd gras
Wrth arfer dysg a dawn dy gariad mad.
Rwyt tithau'n llawn gorfoledd yn dy wedd
A'th enw'n dyst i rym Tywysog Hedd.

### Cynrychiolydd Cymru yn Neuadd Dewi Sant

Joanne Thomas o Donyrefail fydd cynrychiolydd Cymru yng Nghystadleuaeth Canwr y Byd yn Neuadd Dewi Sant rhwng 10 Mehefin a'r 16 Mehefin. Fe'i dewiswyd yn un o 25 fydd yn ymddangos ar lwyfan Neuadd Dewi Sant. Pob lwc iddi hi.

### SUSIE EVANS (1913-2001)



Ar y 19eg o Ebrill bu farw Mrs Susie Evans, Bryn Amlwg, Gron Ffordd, Rhiwbina. Fe'i ganed ym Mryn Amlwg, Y Garnedd Wen, Llanuwchllyn, ac roedd ei theulu'n aelodau yn Ainon, Eglwys y Bedyddwyr, Llanuwchllyn. Ty Unnos oedd Bryn Amlwg yn wreiddiol, cartref ei hen daid, Edward Edwards, a oedd cyn hynny wedi ei droi allan gyda'i deulu o fferm Llwyn Llwydyn am wrthod pleidleisio i'r ymgeisydd Toriaid mewn etholiad. Yn faban, symudodd Susie i Ffridd y Boedel, fferm fechan yn agos i Lynnoedd Crogernan, ger Arthog. Pan oedd yn saith oed, symudodd y teulu eto, i fferm Hywel Dda, rhwng Rhydymain a Llanuwchllyn, a bu'n mynychu oedfa ac Ysgol Sul yn gyson yng nghapel bach yr Annibynwyr, Soar, gerllaw hyd nes yr aeth i Goleg y Brifysgol ym Mangor yn 1932. Wedi cyfnod prifysgol, bu'n gweithio ychydig yn y coleg, ond yn bennaf gyda'r BBC fel ysgrifenyddes i Sam Jones ac, yn achlysurol, fel darlledwraig, hyd 1937.

Yn Awst y flwyddyn honno, symudodd i Gaerdydd i fyw a pharhau i weithio i'r BBC nes torrodd y Rhyfel. Dychwelodd bryd hynny i Hywel Dda, Rhydymain, a gwneud gwaith gwirfoddol gyda'r WVS. Priododd yn 1941. Yn 1945, yn ôl eto i Gaerdydd ac, o 1950 ymlaen, parhau i weithio i'r BBC (yn rhan-amser ar y dechrau). Yna, o 1962 hyd nes ymddeol yn 1976, bu'n ysgrifenyddes arbennig o weithgar yn Rhydfelen.

Bu'n aelod di-fwlch o'r Ysgol Sul am 85 o flynyddoedd, ac eleni dyfarnwyd iddi Fedal Gee an ei ffyddlondeb. Roedd hi'n cefnogi pob achos da yn ymwneud â chrefydd, iaith a diwylliant ac yr oedd yn fawr ei gofal dros les eraill, yn arbennig yr oedrannus a'r diymgeledd, plant a phobl ifanc.

I'r ffyddlon un eiddunaf - ogoniant
Y gwanwyn tyneraf;
Hedd yr awel dawelaf
A gwynfyd yr hyfryd haf.

**Robin Gwyndaf**

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Eglwys y Crwys

Er bod gweithgareddau pob eglwys yn dueddol o leihau dros gyfnod misoedd y Gwanwyn a'r Haf,, eto ni ddônt i ben yn gyfangwbl. Yn Eglwys y Crwys bu aelodau'r Gymdeithas yn rhannu cyfrifoldeb am wasanaeth y Pasg gyda'r gweinidog. Cafodd aelodau'r Gymdeithas gyfle, hefyd, i dreulio penwythnos yn Nhrefeca ym mis Ebrill, yn gwrando ar gyfres o ddarlithoedd difyr gan yr Athro Hywel Teifi Edwards ar Ddatblygiad y Ddrama Gymraeg rhwng 1850-1950. Roedd y trefniadau yng ngofal y gweinidog a chafwyd bwrw Sul cofiadwy.

Yn ystod y Gwanwyn bu'r Gymdeithas Ddrama yn paratoi ar gyfer yr Ŵyl Ddrama a gynhaliwyd yn Theatr Crwys dros gyfnod Mai 15-17. Trefniant llwyddiannus iawn a wnaed ar y cyd gydag Eglwys Minny Street. Rhaid canmol y cynhyrchiadau yn fawr, a'r gefnogaeth a gaed ar y tair noson.

Cynhaliwyd y Gymanfa Ganu flynyddol yng Nghapel y Crwys eleni. Yn dilyn y canu mawl, cafodd plant yr Ysgolion Sul gyfle i fwynhau pryd o fwyd blasus yn nhy bwyta enwog Harry Ramsden. Yr arweinydd gwadd oedd Robert Nichols.

Braf yw gallu cyhoeddi fod y Parchedig Glyn Tudwal Jones, gweinidog presennol Capel Twrgwyn ym Mangor, wedi derbyn yr alwad i fod yn weinidog yn y Crwys o ddechrau mis Medi, ac edrychir ymlaen at ei groesawu ef a'i wraig, Delyth a'r teulu i gyd.

## Eglwys Dewi Sant

Cafodd aelodau newydd y Cyngor Plwyf Eglwysig eu derbyn yn ystod gwasanaeth y bore ar Fai 13. Etholwyd deunaw o bobl i wasanaethu'r plwyf yn ystod y flwyddyn nesaf. Bydd Delyth Davies, y Tyllgoed, yn parhau fel Warden y bobl tra bod Rhys Jones o Landaf yn ymgymryd â'r gwaith o fod yn Warden y Ficer.

Roedd hi'n hyfryd gweld yr eglwys dan ei sang fore Sul, Mai 20, ar achlysur conffyrmio unarddeg o ymgeiswyr yn aelodau o'r Eglwys yng Nghymru, sef Thomas Brodie, Elinor Carson, Branwen Davies, Llyr Davies, Tomos Davies, Bethan ap Glyn, Mari Griffiths, Aron Pritchard, Elin Roberts, Karl Davies a Geraint Lewis. Esgob Llandaf, y Gwir Barchedig Barry Morgan, oedd yn gweinyddu'r Bedydd Esgob ac yn pregethu, ac roedd ganddo neges glir ac ystyrion i'r ymgeiswyr.

Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid ar Gân a gwahoddwyd y nifer fawr a oedd wedi dod ynghyd er mwyn cefnogi'r ymgeiswyr i gymuno. Roedd naws arbennig i'w deimlo wrth gydaddoli fel hyn.

Parhaodd y gwmnïaeth yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth lle darparwyd bwffe a thorrwyd teisen arbennig er mwyn dathlu'r achlysur.

Dymuniadau gorau i'r Parchedig Ainsley Griffiths a'i briod, Angharad Brynach, ar gychwyn pennod newydd yn eu gweinidogaeth. Cafodd Ainsley ei drwyddedu yn offeiriad ym mhlwyfi Pwllheli ac Abererch yn ddiweddar.

## Eglwys y Tabernacl - Ffarwelio gyda phump ffyddlon

Daw cyfnodau i hanes y rhan fwyaf o'r eglwysi lle ceir nifer o golledion yn agos i'w gilydd. Cyfnod felly fu ein hanes yn y Tabernacl dros y misoedd diweddar. Bu farw pump o chwiorydd a fu'n eithriadol ffyddlon i waith yr eglwys, Roeddent oll yn selog i'r oedfaon, ac fe nodweddir eu bywyd gyda graslonrwydd greddfol. Roeddynt yn hynod o gefnogol i'r weinidogaeth ac yn llawenhau yn llwyddiant yr achos.

Dechrau'r flwyddyn buom yn diolch am gyfraniad cyson a sylweddol Eiriona Roberts, a ddaeth i'r Tabernacl o ardal Cross Hands. Bu'n ddiacones am flynyddoedd, ac yn gyson i bob oedfa hyd y daeth afiechyd i'w llethu. Eiriona a sefydlodd yr ardd a'r maes parcio ar dir y fynwent, ac a gynlluniodd lwyfan y festri bresennol. Bu'n gyson i'r Ysgol Sul a'r Cwrdd Gweddi gan rannu gweledigaeth mewn sawl gwedd o fywyd yr eglwys. Roedd yn hoff o ddarllen llyfrau athronyddol a diwinyddol ac yn meddu ar ddoniau arbennig yn yr ardd.

Gwraig dawel fonheddig oedd Mary James, a hanai eto o Ddyffryn Gwendraeth. Fel Eriona, roedd hithau yn nyrs o ran galwedigaeth ac yn un o ymwelwyr ffyddlonaf i'w heglwys. Bu yng nghanol bywyd yr eglwys ac fe ddarllenai ei Beibl yn ddyddiol.

Diacones arall oedd Eirene Anthony Davies. Roedd yn athrawes o Don Pentre, y Rhondda yn wreiddiol. Roedd yn gymathiad o hwyl a defosiwn yr eglwys, a bythol ifanc er iddi fyw am 94 o flynyddoedd.

Cyfeilles agos iddi oedd Susie Evans, yn enedigol o Rydymain ym Meirion, a dderbyniodd Fedal Gee ychydig wythnosau cyn marw.

Ganol fis Mai, bu farw Menna Thomas, athrawes arall a ddaeth o Rydaman i fyw yma. Roedd hi'n nith i'r diweddar Barchedig Myrddin Davies, ac wrth ei bodd yn ymweld â Threfdraeth yn Sir Benfro. Bu ei haelwyd yn noddfa i laweroedd a'i charedigrwydd yn ddi-ball.

Clodforwn Dduw amdanynt, a diolchwn am y gras a ddatguddiwyd yn eu bywydau gwerthfawr.

## NEWYDDION O EBENESER

### Gweithiwr Ieuenctid

Datblygiad cyffrous yn ein hanes fel eglwysi Annibynnol y cylch yw ein bod wedi penodi Carys Davies o Ynysybwl yn weithiwr ieuenctid llawn amser yn ein plith am gyfnod o dair blynedd. Fe fydd yn gweithio gydag eglwys Minny Street, Mynydd Seion, Casnewydd, Tabernacl y Barri, Bethel, Penarth ac Ebeneser. Edrychwn ymlaen i gydweithio gyda hi.

### Chwiorydd y Byd

Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd yn Ebeneser ar ddydd Gwener Mawrth 2. Cafwyd cyflwyniad Samoaidd bywiog a thrawiadol ar ffurf meim, darlleniadau a chân gan chwiorydd Ebeneser ac anerchiad rhagorol gan Mrs. Beti Wyn Davies. Hyfrydwch mawr oedd cael croesawu chwiorydd o eglwysi eraill Caerdydd yn y cwrdd arbennig hwn.

### Dathlu 175

Ym mis Mawrth 1826 corfforwyd eglwys Ebeneser. Y man cyfarfod cyntaf oedd coety ar Westgate Street - lle saif y maes parcio aml lawr erbyn hyn - lle y buont yn addoli am ddwy flynedd. Eleni felly, yr ydym yn dathlu 175 o flynyddoedd fel eglwys. Ar ddydd Sul yr 11eg o Fawrth cynhaliwyd dathliad mewnol i nodi'r digwyddiad. Yn oedfa'r bore, cafwyd cwrdd plant ac yn yr hwyr cymerwyd rhan gan nifer o aelodau ac adroddodd y gweinidog beth o hanes y dechreuadau. Cynhelir y dathlu mawr ym mis Tachwedd.

### Eisteddfod yr Urdd

Bu Cymdeithas y Chwiorydd yn brysur iawn yn casglu arian tuag at Eisteddfod yr Urdd 2001. Hyd yn hyn y maent wedi casglu dros £700.

# Glantaf

## Taith i Batagonia 2001

Daeth tair blynedd o aros a disgwyl i ben ar fore dydd Sadwrn y 7fed o Ebrill wrth i ugain o ddisgyblion chweched dosbarth Glantaf a 6 athro ddechrau ar eu taith i Batagonia.

Cyrhaeddom ni'r Gaiman ar ôl tri diwrnod o deithio a chawsom groeso arbennig. Roedd y gymuned Gymraeg wedi trefnu gwledd i ni a digon o adloniant o dan ofal Côr y Gaiman.

Trwy gydol yr wythnos yn y Gaiman, cawsom gyfle i ymweld â nifer o lefydd a chael blas ar fywyd a diwylliant Cymry'r Ariannin. Cawsom ein synnu ar faint o Gymraeg sy'n cael ei siarad yno er ei fod ben draw'r byd ac mae'r rhan fwyaf o lefydd ag enwau Cymraeg - Ceg y Ffos, Tir Halen, Bryn Gwyn a Trelew. Roedd cerdded o un pen stryd Michael D. Jones i'r pen arall yn amhosib heb fod yna Cymry yn dod allan o'u tai er mwyn cael siarad gyda ni ! Roedd clywed yr acen Sbaeneg wrth siarad Cymraeg yn rhyfedd iawn i ni ar y dechrau ond fe ddaethom i arfer yn gyflym iawn. Roeddynt wrth eu bodd yn gweld pobl ifanc o Gymru a oedd yn siarad yr iaith.

Ar ôl treulio wythnos yn y Gaiman, gwnaethom ni'r daith wyth awr drwy'r paith er mwyn cyrraedd Esquel, yn yr Andes. Unwaith eto cawsom groeso mawr gan y trigolion ac roeddynt wedi paratoi digonedd o fwyd i ni - yn enwedig cig!

Buom yn yr Andes am ddeg diwrnod a chaswsom ddigonedd o amser i ddringo mynyddoedd, ymweld a Chile, Los Alerces (y parc cenedlaethol) yn ogystal a chynnal nosweithiau llawen, gwasanaethau a digonedd o nosweithiau cymdeithasol.

Cawsom amser arbennig o dda ym Mhatagonia. Roedd y bobl au diwylliant wedi creu cryn argraff arnom. Diolch i Bob Puw a phob un arall wnaeth y daith hon yn bosib, roedd e'n brofiad arbennig iwan ac rwy'n siwr bydd rhai ohonom yn dychwelyd yno yn ddyfodol.

**Nerys Jones**



Eluned Gozalez, prifathrawes y Gaiman yn siarad â'r disgyblion yn nerbynfa'r ysgol

# Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, Y Barri

### Lansio Gwefan

Ein hysgol ni a gafodd ei dewis i lansio Gwefan ddwyieithog newydd ACCAC, sef www.drws.co.uk. Bu disgyblion yr ysgol yn arddangos eu sgiliau ymchwilio gan ddefnyddio'r wefan newydd o flaen cynulleidfa dra phwysig.

### Ymweliadau ac Ymwelwyr

Mis Mawrth eleni aeth disgyblion yr ysgol ar eu trip cyntaf i Techniquest i ddathlu'r Wythnos Wyddoniaeth Genedlaethol. Rhyfeddol llwyr oedd yr ymweliad rhwng yr arbrofion, y sioeau a'r arddangosfeydd.

Rydym wrth ein boddau yn croesawu ymwelwyr diddorol i'n hysgol a dyma adroddiad Thomas Blumberg, 7B, ar ymweliad yr awdur Gwên Redvers Jones â ni;

'Wel!! Dyna ddiwrnod gwych! Y diwrnod pan ddaeth Gwen Redvers Jones i fy ysgol. Yn gyntaf, dangosodd hi ei llyfr cyntaf erioed inni. Storïau Saesneg oedden nhw, ond doedden nhw ddim yn gwneud fawr o synnwyr i ni. Yna dywedodd hi stori wrthyn ni am ei hen ysgol. Un noson anghofiodd hi fynd â gwaith dosbarth pwysig iawn adref i'w farcio, felly fe aeth hi'n ôl i'r ysgol dywyll i nôl y llyfrau ond roedd y trydan wedi torri, ac felly aeth hi i mewn i'r ysgol a lan i'r dosbarth ar y llawr uchaf. Pan aeth hi i mewn i'r cwpwrdd i nôl y llyfrau, caeodd drws yr ystafell. Rhedodd hi fel cath ar dân i lawr a mâs o'r ysgol. Y diwrnod nesaf, aeth hi i mewn i'r ysgol a ffeindio ei llyfrau, nid ar y llawr fel y gadawodd hi nhw, ond mewn pentwr taclus ar ei desg. A doedd neb wedi bod yn yr ysgol.

Mae yna fwy i'r stori ond dyna fo yn fy ngeiriau i. Ar ôl y stori, dysgais fod angen tri mis o ymchwilio cyn ysgrifennu stori. Yna, yn olaf, holodd y dosbarth gwestiynau, ac roedd atebion gwych gan Gwen Redvers Jones.

Ymweliad hollol wahanol ei naws oedd un y Cwmni 'Construction Industry Training Board'. Y bwriad oedd creu pont allan o diwbiau plastig mewn cyfnod o awr a hanner. Fe'n rhannwyd yn dimau, ac roedd ein tîm ni, sef Abigail CASE, Christopher Chucas, Emma Mills, Emma Richards a Rhys Goodfellow yn wych, achos ni oedd enillwyr Pont orau'r gystadleuaeth. Fe benderfynom ddefnyddio ffurf y triongl fel sail i'n cynllun gan mai hwn yw un o'r siapau cryfa sy'n gallu gwrthsefyll pwysau a thensiwn. Cawsom hwyl yn creu'r bont, gan ddysgu hefyd pa mor bwysig yw gallu gwrando a dod i benderfyniad gydag aelodau eraill y tîm. Edrychwn mlaen at y sialens nesaf.

Ymwelydd arall a gafodd groeso brwd oedd Elin Leyshon, disgybl yn Ysgol Gyfun Gŵyr, ond Hwch o **Pam fi Duw** i ni. Bu'n sôn yn frwd am y gyfres, am y broses o ffilmio ac am ei rhan hi ynddi. Roedd pawb wrth eu boddau i ddeall bod Elin yn y gyfres nesaf eto, fydd yn cael ei ffilmio dros yr Haf.



Y plant gyda Elin

# Plasmawr

## CWRS ADOLYGU

Yng nghanol mis Mawrth aeth criw o ddisgyblion Blwyddyn 11 ar gwrs adolygu Cymraeg gydag aelodau'r adran i ganolfan addysg Dan y Coed yn ardal Y Mwmbwls. Y bwriad oedd addysgu gwahanol rannau o'r cwrs TGAU Cymraeg. Cafwyd nifer o wersi ar bynciau amrywiol, fel technegau ateb papur arholiad, barddoniaeth a'r nofelau gosod. Yn ogystal â'r holl waith, cafwyd cyfle i ymlacio hefyd. Yn sicr, bydd y cwrs o fudd i'r criw pan fyddant yn adolygu ar gyfer yr arholiadau Cymraeg.

## DIWRNOD MABOLGAMPAU

Cynhaliwyd diwrnod mabolgampau'r ysgol yn stadiwm Lecwydd ar Fai 11eg eleni. Roedd nifer o'r disgyblion yn cystadlu er mwyn ennill marciau i'w llysoedd – Elfed, Curig, Crwys a Nantlais. Yn ffodus, roedd y tywydd yn braf a'r awyrgylch yn y stadiwm yn hyfryd. Ar ôl yr holl densiwn yn ystod y dydd a'r marciau'n agos iawn, llys Nantlais oedd yn fuddugol. Derbyniodd Rhys Thomas o Flwyddyn 7 a Miss Ffion Davies y Pennaeth Llys y cwpan ar ran Nantlais. Llys Curig enillodd y darian am y cystadlaethau rygbi a hoci a gynhaliwyd yn ddiweddar yn yr ysgol. Hoffai'r ysgol longyfarch y canlynol am berfformiadau arbennig:

Rhys Thomas a Natasha Slade o flwyddyn 7, Huw Griffiths a Gwennan Harries o flwyddyn 8, Gethin Thomas ac Amy Williams o flwyddyn 9 ac Andrew Bloxham ac Elin stewart o flwyddyn 10.

Derbyniodd yr unigolion hyn darian a nwyddau gan GlaxoSmithKline.

## Sgïo yn Ffrainc

Eleni, yn ystod gwyliau'r Pasg aeth Ysgol Plasmawr ar daith sgïo i Vars yn Alpau De Ffrainc. Cymysgedd helaeth o ddisgyblion ac athrawon aeth ar y daith – rhai yn dalentog iawn a rhai yn, wel, yn methu'n llwyr. Un peth sy'n bendant, cafodd pawb wyliau bendigedig.

Gyda'r nos fe gawsom gyfle i fwynhau llawer o weithgareddau; sglefrio iâ, cwis, bingo ac ar ddiwedd yr wythnos seremoni wobrwyo. Aeth nifer fawr o wobrau i'r disgyblion a'r staff; gwobrau da a gwobrau 'diddorol' iawn i'r rheiny ar y daith a oedd yn haeddu cael eu henwi am ddigwyddiadau cywilyddus!

Diolch i'r athrawon am drefnu wythnos wych yn llawn hwyl ac atgofion melys.

**Alex Clatworthy**

## Ymweliad 'Y Canadians'

Y cyntaf ar hugain o Fawrth oedd hi pan ddaeth timau rygbi Ysgol Shawnigan Lake o Ganada i ymweld ag Ysgol Plasmawr. Roedd bechgyn a merched o flynyddoedd 8 – 11 wedi trefnu rhoi llety i 42 o'r bechgyn rygbi. Chwaraewyd dwy gem hynod o gyffrous gydag Emyr James yn arwain Blwyddyn 10 ac Owain Simpson yn gapten ar dîm Blwyddyn 11. Buddugoliaeth oedd hanes Blwyddyn 10 Plasmawr ond yn anffodus trechwyd Blwyddyn 11 gan dîm cryf o Ganada!

Cawsom ni brofiad bythgofiadwy gyda'r bechgyn ac edrychwn ymlaen yn fawr at ein hymweliad ni â Chanada er mwyn cwrdd â'n ffrindiau eto.

**Geraint Passmore**



Y criw yn mwynhau yn Ffrainc

## Llongyfarchiadau

- i David Rhys Thomas o flwyddyn 7, Gethin Davies, Rhys Morgan a Gareth Davies o flwyddyn 8 sydd wedi cael eu dewis i chwarae i dîm criced y Sir.
- i'r criw o fechgyn o flynyddoedd 7 ac 8 sydd wedi cael eu dewis i ganu yn 'Tosca' gyda'r WNO.

## Ar y CYD...

yng ngofal Lynne Davies

Pan ddechreuais i weithio, roeddwn i'n wastad yn teimlo'n anesmwyth yr adeg yma o'r flwyddyn. Roeddwn i'n teimlo y dylwn i wneud rhywbeth yn lle bod allan yn mwynhau heulwen yr haf. Doedd hi ddim yn naturiol eistedd o gwmpas a darllen nofelau – roedd rhywbeth ar goll... Dyna oedd y tro cyntaf ers rhyw ddeuddeng mlynedd imi beidio â chael arholiadau – roeddwn yn rhydd! Hynny yw, tan imi ddechrau dysgu'r Gymraeg. Saith mlynedd yn ôl gwnes i TGAU, yna Safon Uwch, yna ddechrau ar Radd Allanol Prifysgol Aberystwyth. Unwaith eto mae gweld y magnolia yn blodeuo yn fy ngyrru i at fy llyfrau, mae'r gwair yn tyfu wrth imi ddysgu beth oedd y prif ddylanwadau ar Kate Roberts, mae'r llwch yn pentyrru yn y tŷ wrth imi geisio cael geiriau Nant y Mynydd i mewn i 'nghof, ac mae erthygl y Dinesydd wedi aros tan i'r Golygydd fygwth peidio â chynnwys dim byd i'r dysgwyr y mis hwn. Ond rwy'n gwybod dyma'r unig ffordd. Heb imi gael fy ngorfodi, fyddwn i byth yn dod o hyd i'r amser i ddarllen trysorau llên Cymru neu ymlwybro gyda threigladau Llydaweg! Efallai nad rhywbeth yn unig i brofi bod ein prifysgolion yn rhoi gwerth eu harian ydy arholiadau, wedi'r cwbl. Ac yr wythnos nesaf, galla' i ddarllen y nofelau ges i dros y 'Dolig – ar ôl torri'r gwair, a thynnu'r llwch, a phlannu'r basgedi crog, a thacluso fy 'stafell wely, a...

Pob lwc i bawb, boed yn ddysgwyr neu'n Gymry Cymraeg, sy'n eistedd arholiadau yr haf yma!

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| anesmwyth – *uneasy* | gorfodi – *to force* |
| adeg – *time, period* | ymlwybro – *struggle* |
| dylanwadau – *influences* | Llydaweg – *Breton* |
| llwch – *dust* | basgedi crog – *hanging baskets* |
| pentyrru – *pile up* | |
| bygwth – *to threaten* | boed – *be they* |

Cofiwch bod grŵp CYD yn dal i gwrdd yn Nhafarn y Tavistock (Stryd Tavistock) ar nos Fercher am 9 o'r gloch.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Y Bêl Hirgron



Gan mai papur bro Caerdydd ydyw hwn dylid dechrau trwy sôn am hanes Clwb y Brifddinas – hanes tymor pur siomedig. O'r ddwy ornest-ar-hugain yn y Cynghrair, enillwyd un-ar-bymtheg, gan sgorio 76 o geisiadau – tri phwynt am fuddugoliaeth ac felly cyfanrif o 48 pwynt, chwech yn llai nag Abertawe a sgoriodd gant a dau o geisiadau. O'r deuddeg clwb yn y Cynghrair yr oedd dau – Glasgow a Chaeredin – o'r Alban, ac er i'r cyntaf sgorio 78 o geisiadau (y nifer uchaf ac eithrio Abertawe), ni fu eu cyfraniad yn fawr, a dweud y lleiaf. Dywedodd Andy Nicol yn ystod y tymor fod y Cynghrair wedi bod o fudd mawr i'r Alban, ond ni chred neb yng Nghymru ein bod ni wedi elwa dim o gael yr Albanwyr yn ein mysg. Mae hi'n wir nad enillodd ein clybiau fwy na thair gwaith yn Yr Alban (Abertawe yn Glasgow a Chaeredin, a Phen-y-bont yn Glasgow), ond er i'r ddau wneud ychydig yn well na hynny yng Nghymru, wele rai o'u canlyniadau yma: Caerdydd – 80, Caeredin – 16 (deg cais i un); Abertawe – 69, Caeredin – 20 (9 cais i 3); Castell-Nedd – 48, Caeredin – 20 (7 cais i 2); Pen-y-bont – 49 Glasgow -27 (7 cais i 3); Casnewydd – 55, Caeredin – 15 (8 cais i 2). Enillodd Glasgow yng Nghasnewydd, cofier, o 27-6 ac o 4 cais i 0. Beth bynnag, bydd yr un deuddeg clwb yng Nghynghrair Cymru a'r Alban y tymor nesaf, er y bydd y Cynghrair Celtaidd yn dechrau ym mis Awst, gyda phedair Talaith Iwerddon yn ymuno â'r Albanwyr a'r naw clwb o Gymru – collodd Caerffili eu lle yn hwn, er y byddant yn dal i chwarae yn un Cymru a'r Alban.

Ddechrau'r tymor curodd Gaerdydd Gaerlŷr gartref o 29-17 ac o bedair cais i ddau, wrth ennill Tlws Jewson, ac yr oedd pawb yn rhagweld tymor llwyddiannus: ar ôl colli yn Belfast yng Nghwpan Ewrop, bu'r clwb yn chwarae'n arbennig o dda yn y gystadleuaeth honno, a churo'r Saraseniaid yn Watford o 32 i 23, ac yna gartref o 24-14. Curesid Toulouse gartref ym mis Hydref, ond ar ôl colli oddi cartref yn Ionawr o 38 i 27 dechreuwyd simsanu; y Sadwrn canlynol daeth isafbwynt y tymor – Caerloyw – 21, Caerdydd – 15 – a dyna ddiwedd y gobaith o ennill Cwpan Ewrop. Y prynhawn braf hwnnw, o flaen torf o ddeng mil dan ei sang, yr oedd y tîm yn drychinebus o wael, er iddynt sgorio'r ddau gais a sgoriwyd. Ciciodd Simon Mannix o Seland Newydd saith gôl gosb, ond ni ddylid beio'r dyfarnwr, Joel Jutge, y Ffrancwr, er gwaethaf ei anwadalwch, am y canlyniad. Yr oedd Neil Jenkins yn enwedig o ansicr trwy gydol y prynhawn. Enillodd Pen-y-bont yng Nghaerdydd wedyn yn y Cynghrair, ond daeth fflach o oleuni ar Y Strade'r Sadwrn ar ôl hynny pan gollodd Llanelli yn y Cwpan i Gaerdydd o 65 o bwyntiau i 16. Sgoriodd Caerdydd naw cais ac ildio un yn unig, ac yr oedd gobaith ennill Cwpan Cymru i leddfu dipyn ar siom Cwpan Ewrop. Ond yr oedd Abertawe'n drech na nhw ar Sain Helen yn y rownd nesaf, ac ar ôl colli yng Nglyn Ebwy, ac yna ar Y Strade ar Sadwrn ola'r tymor aeth Tlws y Cynghrair o'u bysedd. Nid enillwyd dim yn ystod y tymor, ac ar ei ddiwedd collodd Lynn Howells, ei hyfforddwr, ei swydd, a'r tebygrwydd oedd mai tramorwr arall a lanwai ei swydd. Clwb anodd i'w hyfforddi'n ôl y sôn, oherwydd grym y chwaraewyr a'r Cadeirydd.

## Pêl-droed



**Dyrchafu!**

Do, fe wireddwyd y freuddwyd a Chaerdydd wedi dyrchafu o'r III i'r II adran o Gynghrair Lloegr – a hyn heb orfod ymwneud â'r gêmau ail gyfle. Caerdydd yn gorffen yn ail y tu ôl i Brighton ac uwchben Chesterfield – a gosbwyd gan y Gymdeithas Bêl-droed oherwydd anghysonderau o fewn ei gweinyddu – gan golli 9 pwynt oherwydd hynny. Mae'r diolch yn bennaf i Sam Hammam a'i dîm hyfforddi am balmantu'r ffordd i'r II adran – ac wrth gwrs i'r chwaraewyr a ddaeth â thipyn o lawenydd i'r cefnogwyr. Ar gyfartaledd 'roedd y gefnogaeth i Gaerdydd yr ucha yn yr Adran – dros 8,000 y gêm.

Ond er y llawenydd o ddyrchafu dylid cofio mai go dwmpathog fu ei chwarae yn y chwe gêm ola o'r tymor – ennill ond un o'r rheiny, rhannu'r ysbail mewn dwy – a cholli tair. Mae hyn siwr o fod yn rhybudd amserol gogyfer â'r tymor nesa!

Mae 'na nifer o arwyddion calonogol er hynny: fe sgoriwyd 95 o golie – 118 gan gynnwys gemau cwpan – record i'r clwb. Robert Earnshaw y prif sgoriwr – ond cyfraniadau pwysig gan Fortune West, Jason Bowen, Paul Brayson a Scott Young yn ogystal ag Andy Legg a Josh Low.

Mae 'na gydbwysedd yn y garfan o ran oedran – rhai profiadol fel Andy Legg, Jason Bowen a Fortune West – a rhai chwaraewyr wedi gorffen eu tymor cynta yn unig yng Nghynghrair Lloegr – profiad a all fod o fantais mawr iddynt y tymor nesa.

Ond mae yna fyd o wahaniaeth rhwng safon y IIIedd adran a safon yr II ac mae'n amlwg nad yw nifer o chwaraewyr presennol Caerdydd ddim o safon yr ail adran. Mae'n weddol sicr y bydd rhyw naw neu ddeg yn ymadael cyn y tymor nesa.

Mae Sam Hammam a'i brofiad helaeth o'r gêm, yn ymwybodol o'r anghenion – golwr, canolwr – dau chwaraewr ganol cae – blaenwr ac o bosibl cefnwr hefyd. Mae'r clwb ar drywydd chwaraewyr addas eisoes – y pwyslais ar oedran a phrofiad.

Yr angen pennaf i'r dyfodol yw maes newydd – bu trafodaethau eisoes ynglyn â hyn – ond yn y cyfamser mae yna newidiadau a datblygiadau ym Mharc Ninian gogyfer â'r tymor nesa – sef lloc o flaen yr eisteddfa ar y banc mawr – a tho dros ben 'Grangetown' y tu ôl i'r gôl – heb sôn am gyfleusterau bwyta ac ati.

Mae'r dyfodol yn fwy llewyrchus nag y bu ers tro – gobeithio y bydd y canlyniadau ar y maes yr un mor llewyrchus yn yr ail adran – amser a ddengys.

**Howard Spriggs**

### Buddugoliaeth i Tanni Grey-Thompson

Llongyfarchiadau i Tanni unwaith eto am ei llwyddiant ym marathon Llundain yn Ebrill a hynny am y pumed tro. Cyflawnodd y gamp mewn dwy awr a thri munud ar ddeg. Enillodd bedair medal aur yn y Paralympics yn Sidney y llynedd ac mae hi'n bwriadu cystadlu yn Chwaraeon y Gymanwlad ym Manceinion y flwyddyn nesa.

### Ryan yn aros hefo Man-U

Mae Ryan Giggs y seren bêl-droed o Gaerdydd, newydd arwyddo cytundeb arall hefo'i glwb Man-U i aros yno am bum mlynedd arall gan ennill tua £50,000 yr wythnos. Ers iddo ymuno â'r tîm hŷn yn 1991 mae o wedi sgorio 86 o goliau mewn 435 o gemau ac yn werth eu bwysau mewn aur i'w glwb!

Gweithio dros gwsmeriaid

# Cyngor Defnyddwyr Cymru

Sefydlwyd Cyngor Defnyddwyr Cymru yn 1975, ac ef yw'r prif gorff cyffredinol ar gyfer defnyddwyr yng Nghymru ac mae'n gorff polisi dylanwadol. Ein gwaith yw cynrychioli buddiannau defnyddwyr drwy ymchwil, ymgyrchu a gweithio gyda gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Os ydych yn chwilio am her newydd gyffrous a chyfle i wneud gwahaniaeth - gallwn fod yn union yr hyn y buoch yn chwilio amdano.

## Swyddog Cwynion a Gweinyddiaeth Rhan-amser

**£16k pro rata + gwyliau/buddion da**

Gweinyddydd rhan-amser (2½ diwrnod/wythnos) i weithio fel rhan o dîm bach a chyfeillgar, yn trafod galwadau gan gwsmeriaid gwasanaethau post ledled Cymru. Bydd angen i chi fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda gallu trefniadol da, sgiliau gwasanaeth cwsmer cryf a llythrennedd sylfaenol mewn TG.

## Swyddog Codi Arian Rhan-amser

**£17.3k pro rata + gwyliau/buddion da**

Swyddog Codi-Arian Rhan-amser (3 diwrnod/wythnos) i ymchwilio ffrydau refeniw a negydu a sicrhau cyllid. Byddwch angen hanes o brofiad (unrhyw sector), sgiliau cyllid cadarn a'r hyder a'r gallu i sicrhau cysylltiadau a gweithio ar lefel uwch yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. I ymuno â thim cefnogol lle medrwch wneud gwahaniaeth go iawn, ffoniwch am fwy o wybodaeth neu wneud cais gyda cv.

**OPSIWN LLAWN-AMSER:** Os ydych yn godwr arian profiadol nad yw gwaith rhan-amser yn opsiwn i chi, gall fod yn bosibl cynnig opsiwn llawn-amser drwy gyfuno'r ddwy rôl hyn. Dywedwch wrthym yr hoffech ystyried yr hwn pan wnewch gais.

SEREN
SEREN RESOURCE MANAGEMENT

**Dylid anfon ceisiadau cyfrinachol ynghyd â cv at ein hymgynghorydd, Claire Feeney yn Rheolaeth Adnoddau Seren Cyf.**

2B
Cathedral Road
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn:
029 20 515500

Ffacs:
029 20 515753

Email:
serenrmltd@aol.com

**RECRUITMENT COMPANIES ARE NOT ALL THE SAME - DISCOVER THE DIFFERENCE**



## AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF

*Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â*

# Geraint B. Llewelyn

LL.B. B.A(ADD) MLIA (DIP)

**291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED, CAERDYDD, CF23 6PA**
**FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309**

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORUCHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL



# TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch
## Caerwyn Davies
ar **029 20868208**
neu **0468 973229**


## CYNLLUN IAITH GYMRAEG PRIFYSGOL CAERDYDD

Hoffwn eich hysbysu fod Prifysgol Caerdydd wedi paratoi Cynllun Iaith Gymraeg sy'n egluro sut mae'n bwriadu darparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Os oes diddordeb gan unrhyw un o'ch darllenwyr mewn gweld copi o'r Cynllun, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, dylech gysylltu â mi yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Is-Ganghellor
Prifysgol Caerdydd
Prif Adeilad
Plas y Parc
Caerdydd
CF10 3AT, neu
Rhif ffôn: 029 2087 4792
E-bost: gruffyddi@caerdydd.ac.uk

Dylai unrhyw un sydd yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gynnwys y Cynllun wneud hynny, i mi, erbyn 31 Mai 2001.

Ar sail y sylwadau a dderbynnir, bydd y Brifysgol yn paratoi adroddiad i'w gyflwyno gyda'r Cynllun terfynol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer cymeradwyaeth.

Yn gywir,
**IFOR GRUFFYDD**
Hwylusydd y Cynllun Iaith Gymraeg - Prifysgol Caerdydd

## Artistiaid SAIN o ardal y Dinesydd

ar gael o'ch siopau Cymraeg lleol ar CD/Caset




**Iona Jones** *Soprano*
Enillydd y Rhuban Glas.
Clasuron fel **Ave Maria, Hei-Ho** a **Cartref** & lleisiau Cantorion Ardwyn ar **Laudate Dominum** ac **O! Holy Night**.
Hefyd **Caneuon Ionawr** gan Gareth Glyn. *Organ:* Janice Ball. *Piano:* Joy Amman Davies. *Telyn:* Lois Davies. *Utgorn:* Edward John.

*Cyhoeddiadau diweddar eraill*





**Huw Tregelles Williams**
Ffefrynnau Fictoraidd ac Edwardaidd ar organ Treforys

**Côr Canna**
Lleisiau swynol merched y brifddinas

**Heather Jones** *Hwyrgan*
Casgliad godidog gan lais arbennig

**Iris Williams** CD o ganeuon cynnar y ferch o Donyrefail

**Nia Ben Aur**
Yr Opera Roc ar CD

**Côr Meibion y Bontfaen**
*Cyngerdd Cysegredig*

**Côr Meibion Porth Tywyn** *Hafan y Gân*

**Eliffant** Ffefrynnau'r grŵp roc bythol-wyrdd ar CD

*Casgliadau newydd allan yr haf yma*

**Ar Log** Y tri chasgliad cyntaf ar CD i ddathlu penblwydd y grŵp yn 25

**Carreg Lafar** *Profiad*
Trydydd albym y grŵp gwerin rhyngwladol

**Crasdant** Mwy o alawon gan lysgenhadon canu gwerin Cymraeg

**Goreuon Mabsant** Caneuon gwerin cynnar ar CD

**Cantorion Creigiau** Casgliad grymus - Cyfarwyddwr Cerdd Mair Roberts

**Jeremy Huw Williams** *Caneuon Alun Hoddinott*

**Cyngerdd Y Mileniwm 2** *Radio Cymru*

*Y cyfan ar gael o*

**Siop y Felin** 7 Penlline Road, Eglwys Newydd
029 20692999

**Oriel** 18-19 Stryd Fawr, Caerdydd
029 20395548
e-bost: cardiff.bookshop@theso.co.uk

**SAIN** LLANDWROG, CAERNARFON, GWYNEDD LL54 5TG
ffôn 01286 831 111 ffacs 01286 831 497
catalog@sain.wales.com www.sain.wales.com

---

**CYFRES NEWYDD** www.s4c.co.uk





Cydweithio. Cyd-fyw... ond am ba hyd?

# IECHYD DA

**9.00PM**
**BOB NOS SUL**
**YN CYCHWYN 10 MEHEFIN**
**TRANSL888/889**

**AILDDARLLEDIAD BOB NOS FAWRTH**

**S4C**

---

## CYFEILLION Y DDAEAR CYMRU

### CYFLE PROFIAD GWAITH

### Swyddog y Wasg - Cymru

Fyddech chi'n hoffi cael profiad gwerthfawr o weithio gyda'r cyfryngau yng Nghymru a hefyd gyfrannu at waith hanfodol Cyfeillion y Ddaear Cymru?

Rydym yn chwilio am berson brwdfrydig i ymuno â'n tîm yng Nghaerdydd fel Swyddog y Wasg. Byddwch yn helpu i godi proffil CyDd gyda'r cyfryngau yng Nghymru drwy hyrwyddo ymgyrchoedd CyDd Cymru i'r cyfryngau, ysgrifennu datganiadau i'r wasg a chynnal cyfweliadau ar y radio a'r teledu.

Rydym yn chwilio am rywun:

- sydd yn gallu ymrwymo eu hunain i o leiaf dri mis yn rhan amser neu'n llawn amser
- sydd a sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig da yn y Gymraeg a'r Saesneg
- sydd a diddordeb mewn ymgyrchu amgylcheddol.

Nid yw profiad o'r cyfryngau yn angenrheidiol oherwydd darperir hyfforddiant. Yn anffodus ni allwn gynnig lleoliad gyda chyflog ond caiff cinio a chostau teithio eu had-dalu.

Am ddisgrifiad swydd, ffurflen gais neu wybodaeth bellach cysylltwch â Chyfeillion y Ddaear Cymru yn: 33 Yr Oriel, Arcêd y Castell, Caerdydd CF10 1BY, ar y ffôn: 029 2022 9577, e-bost: cymru@foe.co.uk

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw:
Cynhelir cyfweliadau ar: